Beth yw pori?

Trosolwg

Mae dysgwyr yn ysgogi eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth flaenorol am fwyta a phori. Maent yn rhannu eu syniadau am bori anifeiliaid mewn ffotograffau, gan gynnwys beth ydyn nhw, lle gallen nhw fod wedi gweld anifeiliaid o'r fath ac unrhyw wybodaeth arall sydd ganddyn nhw. Mae dysgwyr yn ymchwilio i synau a delweddau o anifeiliaid pori i ddatblygu cyflwyniad byr am bori. Maent yn ymweld â'r Comin, ar ôl paratoi nifer o gwestiynau y maent yn dymuno eu hateb ac yn tynnu lluniau o'u hymweliad. Yn ôl yn yr ysgol mae dysgwyr yn casglu eu gwybodaeth i ddatblygu gwasanaeth ysgol yn greadigol am y Comin a'i anifeiliaid pori.

Cyfleoedd i ddatblygu...



COMIN GELLIGAER & MERTHYR COMMON
Llywodraeth Cymru Welsh Government

Adnoddau sy'n ofynnol ar gyfer y gweithgaredd

- Mynediad i'r rhyngrwyd
- Camera, ffôn clyfar neu dabled.

Adnoddau wedi eu cynnwys gyda'r gweithgaredd hwn

1. Ffotograffau o wahanol anifeiliaid yn pori
2. Ffotograffau yn dangos gwahanol niferoedd o anifeiliaid pori
3. Gwefannau ar gyfer clipiau sain:
   - https://freesound.org
   - https://www.soundsnap.com
   - https://www.pond5.com
4. Cwestiynau ffocws a awgrymir mewn setiau, sy'n ymwneud â phob tasg, y gellir eu rhoi i bob pâr/grŵp wrth iddynt ddechrau pob tasg. I'r gwrthwyneb, gall yr athro ddefnyddio'r cwestiynau hyn.

Sut i gynnal y gweithgaredd

Tasg 1: Beth yw pori?

Gofynnwch i barau o ddysgwyr feddwl am a thrafod yr hyn y gallai 'pori' ei olygu a pha anifeiliaid maen nhw wedi'u gweld yn pori ac ym mhle. Anogwch nhw i ystyried a yw bodau dynol yn pori o gwbl a sut mae ein hanifeiliaid anwes yn bwyta ac a ydyn nhw yn pori o gwbl. Gwahoddwch y dysgwyr i rannu eu syniadau gyda'r dosbarth.

Cwestiynau a awgrymir

- Beth yw ystyr y gair 'pori'? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa anifeiliaid sy'n gallu pori? Sut ydych chi'n gwybod?
- Ble gallai anifeiliaid bori? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pryd gallai anifeiliaid bori? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pwy sy'n gofalu am anifeiliaid sy'n pori? Sut ydych chi'n gwybod?
- Sut a phryd mae bodau dynol yn bwyta? Pam? Ydyn nhw byth yn pori? Pam?
- Sut a phryd mae ein hanifeiliaid anwes yn bwyta? Pam? Ydyn nhw byth yn pori? Pam?

COMIN GELLIGAER & MERTHYR COMMON
Llywodraeth Cymru Welsh Government

Tasg 2: Pa anifeiliaid pori rydyn ni'n gwybod amdanyn nhw?

Rhowch ffotograffau o wahanol anifeiliaid pori i grwpiau bach o ddysgwyr (**Adnodd 1**). Gofynnwch iddyn nhw edrych ar bob ffotograff ac ystyried pa anifail maen nhw'n meddwl ydyw. Gallai dysgwyr ysgrifennu enwau'r anifeiliaid ar nodiadau gludiog a'u glynu wrth y ffotograffau neu gallai'r anifeiliaid gael eu harddangos ar fwrdd gwyn a gallai dysgwyr ysgrifennu neu awgrymu enw pob anifail. Gwahoddwch y dysgwyr i rannu eu syniadau am yr anifeiliaid gyda'r dosbarth ac i egluro sut maen nhw'n gwybod pa anifail sydd ym mhob ffotograff.

Cwestiynau a awgrymir

- Pa anifail yw hwn? Beth sy'n gwneud i chi feddwl hynny?
- Sut mae'r anifail hwn yn wahanol i anifeiliaid eraill? Sut mae'n debyg?
- Beth mae'r anifail yn ei wneud? Pam?
- Pryd ydych chi wedi gweld yr anifail hwn? Beth oedd yn ei wneud? Pam ydych chi'n meddwl ei fod yn gwneud hynny?
- Ble ydych chi wedi gweld yr anifail hwn? Pam ydych chi'n meddwl ei fod yno?
- Beth arall ydych chi'n ei wybod am yr anifail hwn? Sut ydych chi'n gwybod hyn?
- Pwy sy'n gofalu am anifeiliaid sy'n pori? Sut ydych chi'n gwybod?
- Sut a phryd mae bodau dynol yn bwyta? Pam? Ydyn nhw byth yn pori? Pam?
- Sut a phryd mae ein hanifeiliaid anwes yn bwyta? Pam? Ydyn nhw byth yn pori? Pam?

Tasg 3: Faint o anifeiliaid pori sydd?

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddwch chi'n dangos ffotograffau iddyn nhw o anifeiliaid yn pori a'ch bod chi am iddyn nhw ddyfalu faint o anifeiliaid sydd ym mhob ffotograff. Gan ddefnyddio bwrdd gwyn, dangoswch ffotograff o (**Adnodd 2**) i'r dysgwyr am gyfrif o 5. Yna, gwahoddwch barau o ddysgwyr i drafod faint o anifeiliaid maen nhw'n meddwl oedd yn y ffotograff ac i rannu eu syniadau gyda'r dosbarth. Dangoswch y llun i'r dysgwyr eto a gofynnwch iddyn nhw gyfrif yr anifeiliaid.

Ailadroddwch y broses hon ar gyfer pob ffotograff yn **Adnodd 2**. Efallai yr hoffech chi ddangos y ffotograffau am gyfnod byrrach neu hirach o amser, yn seiliedig ar y grŵp sydd gennych chi.

COMIN GELLIGAER & MERTHYR COMMON
Llywodraeth Cymru Welsh Government

Tasg 3: Parhad...

Cwestiynau a awgrymir

- Pa anifail welsoch chi yn y ffotograff? Sut ydych chi'n gwybod?
- Faint o'r anifail hwn allech chi ei weld? Sut wnaethoch chi weithio allan hynny?
- A oedd y nifer yn eilrif neu'n odrif? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

Edrychwch ar y ffotograff eto a chyfrif yr anifeiliaid.

- Faint o anifeiliaid sydd ynddo?
- Pa mor agos oedd eich dyfaliad?
- Sut allwch chi wella'r ffordd y gwnaethoch chi gyfrif yr anifeiliaid gyntaf?

Tasg 4: Sut mae anifeiliaid yn pori?

Gofynnwch i'r dysgwyr rannu'r hyn maen nhw'n ei gofio o'r dasg gyntaf, pan y gwnaethon nhw ystyried beth yw pori. Naill ai rhowch y rhestr o wefannau (**Adnodd 3**) i grwpiau bach o ddysgwyr a fydd yn caniatáu iddynt gael mynediad at ystod o glipiau sain o wahanol anifeiliaid yn pori neu chwaraewch amrywiaeth o glipiau sain o anifeiliaid yn pori i'r dosbarth. Gwahoddwch y dysgwyr i wrando ar y clipiau sain a'u trafod.

Yna, gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r rhyngrwyd i chwilio am 'anifeiliaid yn pori' ac i ddewis 'fideos' o'r dewis o dabiau pan fydd y canlyniadau'n cael eu harddangos. Rhowch gefnogaeth os oes angen, i'w helpu trwy'r broses. Bydd gan y dysgwyr fynediad at ystod o glipiau fideo o anifeiliaid yn pori. Fel arall, gwnewch hyn ar fwrdd gwyn, gan wahodd dysgwyr i wylio a thrafod amrywiaeth o'r clipiau hyn.

Anogwch y dysgwyr i wneud nodiadau wrth iddynt wrando ar yr anifeiliaid yn pori ac arsylwi arnynt. Gwahoddwch y dysgwyr i greu cyflwyniad 30 eiliad i ddweud wrth eraill beth yw pori.

Cwestiynau a awgrymir

- Beth allwch chi ei glywed pan fydd yr anifeiliaid yn pori?
- Pa synau maen nhw'n eu gwneud? Pam?
- Beth mae'r synau yn eich atgoffa ohono? Pam?
- Beth sy'n digwydd yn y clip fideo?
- Beth allwch chi ei weld? Beth mae'r anifeiliaid yn ei wneud wrth iddyn nhw bori?
- Sut mae'r anifeiliaid yn pori'n wahanol? Pam ydych chi'n meddwl eu bod nhw'n pori mewn ffordd wahanol?

COMIN GELLIGAER & MERTHYR COMMON
Llywodraeth Cymru Welsh Government

Tasg 4: Parhad...

- Beth allwch chi ei glywed?
- A yw'r synau'n wahanol yn dibynnu ar sut maen nhw'n bwyta? Sut maen nhw'n wahanol?
- Sut mae'r anifeiliaid yn pori mewn ffordd debyg?

Tasg 5: Beth allwn ni ei ddysgu o ymweliad â'r Comin?

Cynlluniwch a threfnwch ymweliad i ddysgwyr â Chomin Gelligaer a Merthyr i archwilio'r defaid a'r gwartheg yn pori. Os yn bosibl, trefnwch i'r ffermwr neu un o'r cominwyr ddod gyda chi ar yr ymweliad, fel y gellid gofyn cwestiynau iddynt am yr anifeiliaid a'r Comin.

Cyn yr ymweliad, gallai dysgwyr wneud rhestr o gwestiynau yr oeddent am gael atebion iddynt, a chael eu hannog i wneud nodiadau a thynnu lluniau o anifeiliaid pori a phethau eraill y maent yn eu gweld a'u clywed ar y Comin. Gallent ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd, gan gynnwys lluniau, pan yn ôl yn yr ysgol i baratoi cyflwyniad am anifeiliaid pori i'w dangos mewn gwasanaeth ysgol, ac ati.

Cwestiynau a awgrymir

- Pa gwestiynau fyddwch chi'n eu gofyn ar yr ymweliad â'r Comin? Pam?
- Beth ydych chi'n meddwl y byddwch chi'n ei weld? Pam ydych chi'n meddwl y byddwch chi'n gweld y pethau hyn?
- Pa anifeiliaid fydd yn pori ar y Comin? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pa anifeiliaid ydych chi wedi'u gweld yn pori?
- Beth mae'r anifeiliaid yn ei wneud wrth iddyn nhw bori?
- Beth sy'n wahanol ynglŷn â sut maen nhw'n pori?
- Pa synau maen nhw'n eu gwneud?
- Beth ydych chi wedi cymryd ffotograffau ohono? Pam?
- Beth fyddwch chi'n ei gynnwys yn eich cyflwyniad? Pam?
- Sut byddwch chi'n defnyddio'r ffotograffau? Pam eu defnyddio fel hyn?

Adnodd 1: Anifeiliaid yn pori

Adnodd 2: Gwahanol niferoedd o anifeiliaid yn pori

Adnodd 4: Cwestiynau ffocws a awgrymir

Tasg 1: Beth yw pori?

- Beth yw ystyr y gair 'pori'? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa anifeiliaid sy'n gallu pori? Sut ydych chi'n gwybod?
- Ble gallai anifeiliaid bori? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pryd gallai anifeiliaid bori? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pwy sy'n gofalu am anifeiliaid sy'n pori? Sut ydych chi'n gwybod?
- Sut a phryd mae bodau dynol yn bwyta? Pam? Ydyn nhw byth yn pori? Pam?
- Sut a phryd mae ein hanifeiliaid anwes yn bwyta? Pam? Ydyn nhw byth yn pori? Pam?

Tasg 2: Pa anifeiliaid pori rydyn ni'n gwybod amdanyn nhw?

- Pa anifail yw hwn? Beth sy'n gwneud i chi feddwl hynny?
- Sut mae'r anifail hwn yn wahanol i anifeiliaid eraill? Sut mae'n debyg?
- Beth mae'r anifail yn ei wneud? Pam?
- Pryd ydych chi wedi gweld yr anifail hwn? Beth oedd yn ei wneud? Pam ydych chi'n meddwl ei fod yn gwneud hynny?
- Ble ydych chi wedi gweld yr anifail hwn? Pam ydych chi'n meddwl ei fod yno?
- Beth arall ydych chi'n ei wybod am yr anifail hwn? Sut ydych chi'n gwybod hyn?
- Pwy sy'n gofalu am anifeiliaid sy'n pori? Sut ydych chi'n gwybod?
- Sut a phryd mae bodau dynol yn bwyta? Pam? Ydyn nhw byth yn pori? Pam?

Tasg 3: Faint o anifeiliaid pori sydd yna?

- Pa anifail welsoch chi yn y ffotograff? Sut ydych chi'n gwybod?
- Faint o'r anifail hwn allech chi ei weld? Sut wnaethoch chi weithio allan hynny?
- A oedd y nifer yn eilrif neu'n odrif? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

Edrychwch ar y ffotograff eto a chyfrif yr anifeiliaid.

- Faint o anifeiliaid sydd ynddo?
- Pa mor agos oedd eich dyfaliad?
- Sut allwch chi wella'r ffordd y gwnaethoch chi gyfrif yr anifeiliaid gyntaf?

Tasg 4: Sut mae anifeiliaid yn pori?

- Beth allwch chi ei glywed pan fydd yr anifeiliaid yn pori?
- Pa synau maen nhw'n eu gwneud? Pam?
- Beth mae'r synau yn eich atgoffa ohono? Pam?
- Beth sy'n digwydd yn y clip fideo?
- Beth allwch chi ei weld? Beth mae'r anifeiliaid yn ei wneud wrth iddyn nhw bori?
- Sut mae'r anifeiliaid yn pori'n wahanol? Pam ydych chi'n meddwl eu bod nhw'n pori mewn ffordd wahanol?
- Beth allwch chi ei glywed?
- A yw'r synau'n wahanol yn dibynnu ar sut maen nhw'n bwyta? Sut maen nhw'n wahanol?
- Sut mae'r anifeiliaid yn pori mewn ffordd debyg?

Tasg 5: Beth allwn ni ei ddysgu o ymweliad â'r Comin?

- Pa gwestiynau fyddwch chi'n eu gofyn ar yr ymweliad â'r Comin? Pam?
- Beth ydych chi'n meddwl y byddwch chi'n ei weld? Pam ydych chi'n meddwl y byddwch chi'n gweld y pethau hyn?
- Pa anifeiliaid fydd yn pori ar y Comin? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pa anifeiliaid ydych chi wedi'u gweld yn pori?
- Beth mae'r anifeiliaid yn ei wneud wrth iddyn nhw bori?
- Beth sy'n wahanol ynglŷn â sut maen nhw'n pori?
- Pa synau maen nhw'n eu gwneud?
- Beth ydych chi wedi cymryd ffotograffau ohono? Pam?
- Beth fyddwch chi'n ei gynnwys yn eich cyflwyniad? Pam?
- Sut byddwch chi'n defnyddio'r ffotograffau? Pam eu defnyddio fel hyn?